O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Croesfan Reilffordd Llanymddyfri, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Hydref 2019* |
| *Yn dod i rym* | *24 Hydref 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Croesfan Reilffordd Llanymddyfri, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 24 Hydref 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 22:00 o'r gloch ar 24 Hydref 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

# 2019 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A40 Trunk Road (Llandovery Level Crossing, Llandovery, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2019

| | |
|---|---|
| *Made* | *18 October 2019* |
| *Coming into force* | *24 October 2019* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A40 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1.** The title of this Order is the A40 Trunk Road (Llandovery Level Crossing, Llandovery, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2019 and it comes into force on 24 October 2019.

**2.** In this Order:

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

"the trunk road" *("y gefnffordd"*) means the A40 Swansea to Manchester Trunk Road;

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A40 Abertawe i Fanceinion.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd yn Rhodfa Tywi, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 20 o fetrau i'r gogledd o Groesfan Reilffordd Llanymddyfri hyd at bwynt 20 o fetrau i'r de o'r groesfan o dan sylw.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Hydref 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means that period commencing at 22:00 hours on 24 October 2019 and ending when the temporary traffic signs have been permanently removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road at Tywi Avenue, Llandovery, Carmarthenshire that extends from a point 20 metres north of Llandovery level crossing to a point 20 metres south of that level crossing.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the 18 October 2019

*Richard Morgan*
Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (CROESFAN REILFFORDD LLANYMDDYFRI, LLANYMDDYFRI, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, wrth groesfan reilffordd Llanymddyfri, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A40 sy'n ymestyn am 20 o fetrau bob ochr i groesfan reilffordd Llanymddyfri yn Rhodfa Tywi, Llanymddyfri.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de fydd mynd ar yr A40 tua'r de-orllewin i Ashfield, ar yr A4069 tua'r dwyrain i Langadog ac ar yr A4069 tua'r gogledd-ddwyrain i Lanymddyfri: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn dod i rym am 22:00 o'r gloch ar 24 Hydref 2019 ac yn aros mewn grym hyd 05:50 o'r gloch ar 25 Hydref 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (LLANDOVERY LEVEL CROSSING, LLANDOVERY, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Llandovery level crossing, Llandovery, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A40 that extends for 20 metres either side of Llandovery level crossing at Tywi Avenue, Llandovery.

The alternative route for southbound vehicles will be via the south-westbound A40 to Ashfield, the eastbound A4069 to Llangadog and the north-eastbound A4069 to Llandovery: vice versa for northbound vehicles.

It is expected that the temporary prohibition will come into force at 22:00 hours on 24 October 2019 and remain in force until 05:50 hours on 25 October 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government